Ffordd i Stopio'r Bwlis

Cysyniadau: **Amynedd, cenfigen, dewrder, dyfalbarhad, derbyn eraill.**

Amcan: **Dangos bod 'na ffordd i stopio'r bwlis!**

Cyfarpar: **Dim.**

Cyflwyniad:

Stori:

Bachgen bach gwahanol oedd Ianto. Roedd pawb yn hoff ohono – ei rieni, ei athrawon a phlant ei ddosbarth. Ond roedd Ianto yn wahanol. Roedd o'n gwybod ei fod yn wahanol i bawb arall. Ond beth oedd yn ei wneud yn wahanol?

Ei hoff raglen ar y teledu oedd Dr Who. Roedd wedi gwirioni efo Dr Who. Ond doedd hynny ddim yn ei wneud yn wahanol, siawns? Mae llawer iawn o oedolion a phlant yn gwirioni ar Dr Who. Ond, ydi plant yn cysgu mewn tardis? Dyna lle byddai Ianto gyda'r nos, yn mynd i mewn i'r tardis yn ei byjamas Dr Who a suddo i mewn i'r gwely o dan y cwilt Dr Who.

Byddai Ianto yn gwisgo'n wahanol i bawb arall. Yn yr haf, pan fyddai hi'n boeth byddai Ianto yn gwisgo sgarff am ei wddf a throwsus hir tra byddai'r bechgyn eraill i gyd mewn trowsus byr. Yn y gaeaf wedyn, pan fyddai hi'n iasoer byddai Ianto yn mynd o gwmpas mewn crys T a menig am ei ddwylo.

Roedd y bwydydd oedd o'n fwyta yn ddigon i godi cyfog ar bawb. Fyddai o byth yn cael cinio ysgol. Byddai'n dod â'i fag bwyd Dr Who yn llawn o wahanol ddanteithion i'r ystafell ginio a dyna lle byddai'n eistedd ar ei ben ei hun yn dewis a dethol beth oedd am fwyta y diwrnod hwnnw. Dydd Llun brechdanau betys ac eog. Dydd Mawrth bisgedi brau a mynydd o gaws y bwthyn arnyn nhw. Dydd

Mercher a dydd Iau pys slwj a nionyn a dydd Gwener brechdanau wyau soflieir.

Un diwrnod holodd yr athrawes blant y dosbarth am eu hanifeiliaid anwes. Ci oedd y ffefryn gyda'r gath yn ail a physgodyn aur yn drydydd. Roedd gan ambell un fwji, ond beth oedd gan Ianto? Neidr peithon. Ie, neidr.

'Ydi hi'n wenwynig?' gofynnodd Miss Edwards.

'Na,' meddai Ianto, 'dim ond gwasgu mae hi.'

'Beth mae'n fwyta?' gofynnodd Miss Edwards wedyn.

'Llygod bach. Maen nhw'n anfon llygod bach marw drwy'r post ac mi fydda i'n eu cadw yn y rhewgell ac yn rhoi un iddi bob pythefnos,' atebodd Ianto.

Roedd gweddill y dosbarth wedi rhyfeddu. Oedd, mi oedd Ianto yn wahanol. Yn wahanol iawn.

Ar ôl clywed hyn roedd plant y dosbarth yn dechrau troi'n gas tuag ato. Yn galw enwau arno. Amser cinio fe fyddai rhai ohonyn nhw'n gofyn iddo, 'Oes gen ti neidr ar dy frechdan heddiw?' neu 'Wyt ti'n mynd â'r neidr am dro i'r cae chwarae heno?'

Roedd rhai o'r genethod yn chwerthin am ei ben, yn enwedig Nanw a Martha. 'Hogyn stiwpid, gwirion, efo neidr ac yn bwyta pys slwj a nionyn i ginio.' Gallai Ianto fod wedi'u hateb a dweud pa mor ddiddorol ydi'r neidr yn nadreddu ar hyd y mat a'i thafod yn dod allan i synhwyro ei ffordd o gwmpas. Ond wnaeth o ddim. Anwybyddu Nanw a Martha wnaeth Ianto a dal ati i chwarae efo'i ffrindiau. Wel, efo ffrind. Dim ond un ffrind oedd ganddo.

Amser cinio byddai Ned a Caradog wrth eu boddau'n tynnu ar Ianto a'i wawdio. Ac wedyn byddai'r plant i gyd yn chwerthin dros y lle.

Doedd ffrindiau Ianto ddim yn deall pam nad oedd o'n gwylltio efo nhw, troi arnyn nhw i'w amddiffyn ei hun. Ond tu mewn roedd Ianto'n flin. Buasai wrth ei fodd yn rhoi Neli'r neidr, dyna oedd enw'r peithon, o gwmpas gwddf Ned a gwneud yr un peth efo Nanw a Martha. Felly, yn hytrach na dweud rhywbeth cas yn ôl byddai Ianto yn dychmygu Neli'r neidr yn gwasgu gwddf Caradog yn dynn nes y byddai ei wyneb yn goch, goch.

A wyddoch chi beth ddigwyddodd wedyn? Am nad oedd Ianto yn ymateb iddyn nhw, dyma nhw'n stopio galw enwau a dechrau ymladd ymhlith ei gilydd.

Eisteddodd Ianto wrth y bwrdd cinio. Agorodd ei fag bwyd. Ond doedd neb yn chwerthin. Doedd neb yn gofyn, 'Beth sydd ar y frechdan heddiw?'

Y pnawn hwnnw sylwodd Ianto fod Ned wedi galw enwau ar Gruff a dyma Gruff yn ei ateb yn ôl ac yn wir chafodd y ddau ddim mynd i chwarae y pnawn hwnnw. A dyna lle roedd Nanw yn dweud pethau cas wrth Martha a dyma hithau'n ei tharo â'i rhaff sgipio. A dyna i chi ysgarmes wedyn. Bu'r ddwy yn ystafell y pennaeth.

A dyna lle roedd Ianto yn chwarae'n braf gyda'i ffrind ac yn trafod Dr Who. A'r lleill yn ymladd ac yn dweud geiriau cas wrth ei gilydd.

Emyn: Fel hyn mae eisiau byw: Canu Clod 171

Trafodaeth bellach:

● Sut byddech chi'n disgrifio Ianto? Wnaeth o'r peth iawn yn eich barn chi?

● Beth am Nanw a Martha, Ned a Caradog? Sut rai oedden nhw?

Myfyrdod/Gweddi:

Mae pob un ohonom yn wahanol. Wnei di'n helpu ni i dderbyn ein gilydd ac i groesawu pawb? Diolch. Amen.